## Diwrnod Gerddi Agored yn Nolwyddelan, Awst yr 21ain 2021

Yn sgil yr holl Reoliadau ynghlwm â'r Cyfnod Clo yn ystod y 18 mis diwethaf a chan nad oedd modd cynnal sioeau na ffeiriau lleol, aethom ati i feddwl am syniadau i godi arian i annog y pentrefwyr i ymgynnull yn yr awyr agored. Fe feddyliodd Helen Chapman am 'Ddiwrnod Gerddi Agored'. Roedd modd prynu'r tocynnau (gyda chynllun o'r gerddi, eu hamser agor a nodiadau Diogelwch) o Eglwys Sant Gwyddelan ac roedd yr holl elw'n mynd i'r Eglwys.

Roedd hawl gan berchnogion y gerddi gyfrannu unrhyw arian ychwanegol y bu iddyn nhw ei godi at eu helusennau dewisol. Bu inni lwyddo i godi ychydig dros £800.


Roedd y digwyddiad yn llwyddiant ysgubol a hyn yn sgil gwaith caled a'r gwaith pharatoi diwyd, yn enwedig gan Sue Layland. Roedd cymysgedd da o drigolion yr ardal ac ymwelwyr ar eu gwyliau yn fforio'r gerddi – er gwaethaf y tywydd anffafriol ar y diwrnod!

Cafodd cwis llwybr flodau ei llunio lle'r oedd modd i rieni a phlant gymryd rhan a mwynhau'r her.

Roedd stondinau yn nifer o'r gerddi yn gwerthu eitemau fel: cacennau, planhigion, bwyd Thai, cŵn poeth, bric a brac a chrefftau. Roedd gan Ali'r physio stondin yn gwerthu Cacennau Jane ac roedd y dafarn a'r feithrinfa ar agor ynghyd â Gwesty Castell Ellen tua diwedd y prynhawn.

Ers y digwyddiad, bu i bentrefwyr eraill ddangos diddordeb yn y digwyddiad gan ddweud y byddan nhw'n hoff o gymryd rhan rhywbryd eto. Maen nhw'n gobeithio cymryd rhan y flwyddyn nesaf pan fydd gerddi gwahanol ar agor o bosib.

Diolch yn fawr i bawb wnaeth gymryd rhan ac am yr holl waith ynghlwm i sicrhau bod y diwrnod yn ddymunol a gwerth chweil.





Os hoffech chi roi hysbyseb yng nghylchlythyr Dolwyddelan
cysylltwch â'r pafiliwn gan ddefnyddio un o'r rhifau
neu'r cyfeiriad e-bost ar y dudalen flaen.